

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Awst 2022 – Gorffennaf 2023

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Crynodeb Gweithredol	2
3.	Monitro	5
3.1	Cydymffurfio â'r Safonau Darparu Gwasanaeth	6
3.2	Cydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi	8
3.3	Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol	8
3.4	Cydymffurfio â Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol	8
4.	Sgiliau Cymraeg Staff	8
5.	Hyfforddiant	9
6.	Recriwtio	9
7.	Cwynion	10
8.	Casgliadau ac Argymhellion	10

1. Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn egluro sut y disgwylir i'r Coleg ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod dewis iaith yn cael ei gynnig yn weithredol. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn unol â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o weithgarwch cwricwlwm, datblygiadau a chyflawniadau allweddol yn ystod 2022/23, sydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu ymrwymiad y Coleg i ddarparu a datblygu darpariaeth Gymraeg yn barhaus ar gyfer ei ddysgwyr, staff, aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Dîm Datblygu'r Gymraeg. Mae wedi'i gyhoeddi ar wefan y Coleg ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, o dan Safonau'r Gymraeg. Mae fersiwn llawn o Safonau'r Gymraeg y Coleg hefyd ar y wefan hon, o dan [Hysbysiad Cydymffurfio](#) (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

2. Crynodeb Gweithredol

Dyma'r bedwaredd flwyddyn o weithredu'r Safonau ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r Coleg wedi ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i ddatblygu a chynyddu ei wasanaeth Gymraeg a'i ddarpariaeth gwricwlaidd er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth a hefyd i gyfrannu at gyflawni dyheadau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr'.

Fel yn y blynyddoedd academaidd blaenorol, parhawyd i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth â'r Safonau yn 2022/23 a arweiniodd at waith datblygu pellach yn cael ei wneud mewn meysydd y nodwyd bod angen rhoi sylw iddynt. Nodir y rhain o dan Adran 3 Monitro isod.

Mae datblygiadau a chyflawniadau allweddol 2022/23 sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant y Coleg a'i allu i gynyddu darpariaeth a chyfleoedd Cymraeg/dwyieithog wedi cynnwys:

- ✚ Cynyddu capasiti **gwasanaeth cyfieithu mewnol**. Er mwyn ffurfioli ceisiadau cyfieithu, creodd Tîm Datblygu Systemau Gwybodaeth y Coleg system tocyn cais cyfieithu ddwyieithog. Mae'r system hon wedi gwneud blaenoriaethu gwaith cyfieithu yn llawer haws. Mae ganddo ei Ddangosfwrdd ei hun sydd wedi galluogi'r Coleg i feintioli gwaith cyfieithu a nodi'r math o waith, cyfnodau o alw mawr a defnydd pob cyfadran/adran. Mae wedi cael derbyniad da gan staff ac mae'n profi i fod yn app effeithlon iawn ac yn hawdd ei ddefnyddio.
- ✚ **Cymorth parhaus yn y Gymraeg i staff**. Roedd y Gymraeg yn rhan o raglen datblygu staff Aspire y Coleg drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys:
 - Cymraeg Gwaith - cynllun a ariennir yn genedlaethol gyda'r nod o ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff. Ymunodd cyfanswm o 28 aelod o staff â'r cynllun ym mis Medi 2022, o gymharu â 24 yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn derbyn sesiynau mentora wythnosol yn y dosbarth a/neu un-i-un gan Diwtor Cymraeg Gwaith. Mae Cymraeg Gwaith yn parhau i fod yn hanfodol i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff er mwyn gallu cynyddu gallu'r Coleg i gyflwyno darpariaeth Gymraeg/dwyieithog.
 - Cyflwynwyd gweithdai methodolegau dysgu ac addysgu Cymraeg/dwyieithog gan Sgiliaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel rhan o ddiwrnodau hyfforddi Aspire. Derbyniodd dysgwyr TAR hefyd hyfforddiant Sgiliaith, gan godi ymwybyddiaeth a darparu adnoddau defnyddiol ar sut i gynnwys darpariaeth/cyfleoedd dwyieithog yn eu haddysgu a dysgu.
 - Darparodd Tîm Datblygu'r Gymraeg hyfforddiant staff a oedd yn cynnwys: (i) sesiynau briffio dilynol ar Safonau'r Gymraeg a sut i fabwysiadu dull mwy rhagweithiol; (ii) sut i ddefnyddio technoleg i gefnogi'r Gymraeg, a gyflwynwyd o fewn yr elfen 'Rhowch gynnig arni' yng Nghynhadledd Digifest Aspire.

- Roedd menter ‘Thrive’ Aspire yn cynnwys y Gymraeg fel un o’i gymunedau addysgu a dysgu, o’r enw ‘Y Sgŵp Iaith’, a oedd yn canolbwyntio ar rannu dulliau o gynnwys y Gymraeg mewn gweithgaredd dosbarth.
- Anogwyd a chefnogwyd staff hefyd i fynychu digwyddiadau ‘Dysgu Cymraeg’ allanol a chyrsgiau preswyl a chynhaliodd Dysgu Cymraeg Sir Benfro eu cyrsiau Pasg Dysgu Cymraeg yma.

Mwy o gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan alluogi’r Coleg i:

- Parhau i gyflogi Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd ym meysydd blaenoriaeth Iechyd, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Gofal Plant Dysgu Seiliedig ar Waith, gan ychwanegu Chwaraeon a Gofal Anifeiliaid yn 22/23. Darparodd y rolau hyn fwy o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i ddysgwyr o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Anogwyd a chefnogwyd dysgwyr Cymraeg rhugl i gwblhau elfennau o’u rhaglen ddysgu yn Gymraeg, gan roi dilyniant a pharhad ieithyddol iddynt. Rhoddwyd cyfleoedd hefyd i ddysgwyr nad ydynt yn rhugl i uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddwyieithrwydd yn y gweithle. Bu Tiwtoriaid Cymorth Dwyieithrwydd hefyd yn hwyluso tiwtorialau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog gyda dysgwyr Cymraeg eu hiaith; yn gallu darparu cymorth bugeiliol a hefyd cefnogi timau addysgu i ddatblygu deunyddiau dwyieithog ar gyfer eu dysgwyr.
- Penodi Swyddog Cangen, gan ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd iaith a diwylliant Cymraeg llai ffurfiol i ddysgwyr a chefnogi ymgysylltiad dysgwyr â gweithgareddau a digwyddiadau’r Coleg Cymraeg. Bu dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cymryd rhan yng nghyfres gweminarau’r Coleg yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd, menter a’r iaith Gymraeg, a oedd yn cynnwys ymweliad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru a thaith y tu ôl i’r llenni o amgylch stiwdios teledu a radio BBC Cymru Wales yng Nghaerdydd.
- Parhau i weithredu cynllun Llysgenhadon y Gymraeg i Ddysgwyr i hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg o fewn y meysydd blaenoriaeth. Roedd cyfanswm o bum Llysgennad – tri yn cael eu hariannu gan Y Coleg Cymraeg a dau yn cael eu hariannu gan y Coleg. Cynhyrnod llysgenhadon flogiau ar eu defnydd o’r Gymraeg; cynorthwyo gyda nosweithiau agored a digwyddiadau pontio; creu fideo ar gyfer ‘Mae gen i hawl – Diwrnod Hawliau Cymru’ a neges [Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd](#). Ymddangosodd un o’r Llysgenhadon dysgu seiliedig ar waith yn y [wasg](#) ac ar raglen deledu ‘Prynhawn Da’ S4C. Ymddangosodd y Llysgennad arall mewn erthygl yng nghylchlythyr y Coleg Cymraeg o’r enw ‘Mae defnyddio ychydig o Gymraeg ar y ward yn mynd yn bell’, gan amlygu sut mae’r ddau yn defnyddio’r Gymraeg yn eu gweithleoedd.
- Trefnu digwyddiadau Cymraeg o dan grant Hybu a Hyrwyddo’r Gymraeg e.e. Diwrnod Shwmae, Diwrnod Hawliau’r Gymraeg, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a’r Clwb Cymraeg. Estynnwyd [Dydd Gŵyl Dewi](#) i wythnos o weithgarwch Cymraeg a Chymreig a chafodd ei ymgorffori yn Wythnos Ffocws Treftadaeth a Diwylliant y Rhaglen Diwtorial. Roedd y gweithgaredd yn cynnwys gweithdai Y Fari Lwyd, gweithdy uwchgyrchu gan grefftwr lleol, Ffair Grefftau Dydd Gŵyl Dewi, cwisiau a chystadlaethau, gan orffen gydag Eisteddfod fach gyda choroni’r artist a [chadeirio’r bardd](#). Roedd ymweliadau addysgol yn cynnwys teithiau i bencadlys S4C Yr Egin,

Tinopolis, Y Senedd a Chanolfan y Mileniwm, gan alluogi dysgwyr a staff i ymgysylltu ag iaith a diwylliant Cymru.

- ✚ Parhau i **integreiddio'r Gymraeg mewn Rhaglenni maes Dysgu** ar draws y Coleg. Derbyniodd cyfanswm o 70 o gyrsiau Addysg Bellach Llawn-amser y rhaglen 10-15 awr 'Dwyieithrwydd ar gyfer y Gweithle'. O ganlyniad, cwblhaodd 899 o ddysgwyr naill ai'r rhaglen 'Dwyieithrwydd' neu elfennau o'u prif gymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r cyfanswm hwn, cafodd 859 eu codio ar LLWR LA26 fel B3; 16 fel B2 a 24 fel B1/C1.
- ✚ **Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.** O fewn y Gyfadran Lefel-A, dewisodd nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ymgymryd â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a derbyniodd sawl un y Rhaglen Diwtorial trwy gyfrwng y Gymraeg. Tyfodd y cydweithio galwedigaethol 14-16 gydag Ysgol Caer Elen yn 22/23, gyda'r Coleg yn cyflwyno cwrs TGAU Peirianeg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i 38 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 fel opsiwn galwedigaethol (gweler astudiaeth achos '[Disgyblion Ysgol Caer Elen yn taflu goleuni ar eu dyfodol](#)'). Mae cynlluniau ar y gweill i gynnig opsiwn galwedigaethol cyfrwng Cymraeg/dwyieithog arall i ddisgyblion Ysgol Caer Elen yn 2023/34.
- ✚ **Llwyddiant parhaus yn y Gymraeg.** Bu dysgwyr [Lefel 3 Cyfryngau Creadigol Blwyddyn 2](#) yn llwyddiannus unwaith eto yng nghystadleuaeth Creu Ap Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2023, gan ennill y medalau i gyd yn y categorïau dan 19 a dan 25, yn ennill dwy fedal Aur, dwy Arian a dwy fedal Efydd. Enillodd dysgwr gwaith saer ddwy wobwr genedlaethol am ei ymrwymiad i ddysgu Cymraeg ac am ddefnyddio'r Gymraeg yn weithgar bob dydd: [Gwobr Addysg Bellach a Phrentisiaeth William Salesbury Y Coleg Cymraeg](#) a Medal Bobi Jones am Ddysgwr y Flwyddyn ar gyfer y grŵp oedran 19-25 yn y flwyddyn 2023 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cyflwynwyd Gwobr Iaith Gymraeg Coleg Sir Benfro i'r un dysgwr, i gydnabod eu cyflawniadau yn y Gymraeg a hefyd i brentis NHS a gwblhaodd eu cymhwyster Iechyd Clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y prentis yma hefyd yn ail yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymraeg B-wbl yn 2023.
- ✚ Darparodd **cydweithio â Menter Iaith Sir Benfro** gyfleoedd allgyrsiol ychwanegol i ddysgwyr a oedd yn cynnwys:
 - Y cerddor a'r cynhyrchydd Cymraeg [Mei Gwynedd](#) yn cyflwyno gweithdai i ddysgwyr Perfformio a Chynhyrchu Cerddoriaeth Lefel 3
 - Y bît-bocsiwr dwyieithog a'r artist dolennu byw [Mr Phormula](#) yn perfformio i grwpiau o ddysgwyr yn y Theatr
 - [Gweithdy uwchgylchu/ail-wampio dillad](#) yn cael ei gyflwyno i ddysgwyr Lefel 3 Dylunio Cynaliadwy
 - [Gweithdai Y Fari Lwyd](#) yn cael eu cyflwyno i grwpiau o ddysgwyr ac yna parêd 'Y Fari Lwyd' o amgylch campws y Coleg

Mae'r gweithgarwch a'r gwaith datblygu a amlinellir uchod, gyda chyfran fawr yn cael ei chefnogi ar hyn o bryd gan gyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi galluogi'r Coleg i dyfu ei ddarpariaeth Gymraeg/dwyieithog, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn, yn unol â Chynllun Strategol 2020/21 – 2024/25 Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Strategaeth Datblygu

Darpariaeth Ddwieithog y Coleg ei hun a Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau cydraddoldeb, cynhwysiant a dewis iaith ym mhob agwedd ar ddarpariaeth y Coleg.

3. Monitro

Yn ystod 2022/23, parhaodd Grŵp Llywio'r Gymraeg – Safonau y Coleg i oruchwylio'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r Safonau. Roedd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol, swyddogion o'r adrannau academiaidd a chymorth busnes a chadeiriwyd cyfarfodydd gan y Pennaeth. Ymdriniwyd â materion cydymffurfio a gwaith datblygu yn y cyfarfodydd hyn yn ogystal â rhannu datrysiadau ac arfer da.

Parhaodd cyfadrannau ac adrannau cymorth busnes i roi eu cynlluniau gweithredu iaith Gymraeg ar waith ac roedd yn ofynnol iddynt ddarparu diweddariadau ar gynnydd yng nghyfarfodydd Safonau'r Grŵp Llywio.

Cymerodd y Coleg ran yn ymarfer casglu tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2023. Bu'r ymarfer hwn yn fuddiol iawn o ran nodi meysydd sydd angen sylw pellach i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys:

- ✚ Gwella mynediad uniongyrchol at wasanaeth ffôn Cymraeg i alwyr Cymraeg. Mae trefniadau dros dro wedi'u rhoi ar waith i ddargyfeirio galwadau Cymraeg i Dîm Datblygu'r Gymraeg. Mae datrysiadau tymor hir yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd i sicrhau bod galwyr sy'n dymuno cynnal eu busnes yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny o'r cychwyn cyntaf.
- ✚ Sicrhau bod holl fideos hyrwyddo'r Coleg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cafodd hyn ei ystyried gan y tîm Marchnata a'i gynnwys yn ei gynllun gweithredu iaith Gymraeg adrannol i'w roi ar waith ar unwaith.
- ✚ Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth a gyhoeddir ar wefan y Coleg e.e. ffurflenni, polisiâu a strategaethau ar gael yn Gymraeg. Cynhaliwyd gwiriad cydymffurfio yn dilyn yr ymarfer casglu tystiolaeth ac anfonwyd dogfennau a nodwyd heb fersiwn Gymraeg i gael eu cyfieithu. Yn ogystal, gweithredodd y Tîm Datblygu Systemau Gwybodaeth sbardun awtomataidd ar y 'Ganolfan Ddogfennau', i atgoffa staff i lanlwytho fersiwn Gymraeg o'r ddogfen i'r wefan. Mae hyn yn profi'n effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.
- ✚ Sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn y Brif Dderbynfa bob amser. Mae'r derbynyddion presennol ar y rhaglen Cymraeg Gwaith i uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg ac yn rhagweithiol iawn yn eu hymagwedd wrth gynnig gwasanaeth Cymraeg. Mae staff sy'n siarad Cymraeg mewn adrannau eraill wrth law i gynorthwyo ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg yn y Dderbynfa.
- ✚ Mae gwelliannau wedi'u gwneud i hunaniaeth gorfforaethol ddigidol ddwyieithog y Coleg – ar gyfryngau cymdeithasol gyda [@colegsirbenfro ar X](#) (Twitter yn flaenorol); [Coleg Sir Benfro ar Facebook](#) a chyfeiriadau e-bost gyda [@colegsirbenfro](#) yn ogystal â [@pembrokeshire.ac.uk](#) e.e. [derbyniadau@colegsirbenfro.ac.uk](#) ar gyfer Derbyniadau.
- ✚ Yr angen i gael polisi Dyfarnu Grantiau yn ei le fel un o ofynion y Safonau. Mae hyn yn y broses o gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.

Mae'r meysydd uchod ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gweithredu diwygiedig y Gymraeg i gyfadrannau ac adrannau ar gyfer 2023/24 a byddant yn cael eu monitro ymhellach yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio'r Gymraeg – Y Safonau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, parhaodd Tîm Datblygu'r Gymraeg i ymgymryd â'r gwaith o hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Roedd y Tîm yn cynnwys Swyddog Datblygu'r Gymraeg, y Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd, Cyfieithydd y Coleg a'r Tiwtor Cymraeg Gwaith, gyda'r Pennaeth Cyfadrannau Gofal Iechyd a Mentrau Masnachol yn rheolwr llinell. Roedd ffocws y Tîm yn bennaf ar ddatblygu darpariaeth a chefnogi cwricwlwm cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, cefnogi Safonau'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu i gyfadrannau ac adrannau.

Mae'r Coleg wedi cynnal perthynas waith dda gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gan sicrhau presenoldeb yn nigwyddiadau'r Comisiynydd fel gweminar Lluo Polisi. Bydd arfer gorau a gesglir o'r gweithgaredd hwn yn cael ei ymgorffori ymhellach wrth weithredu'r Safonau wrth i'r Coleg barhau i wella ei wasanaethau Cymraeg.

3.1 Cydymffurfio â'r Safonau Darparu Gwasanaeth

Yn ystod 2022/23 parhawyd i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion y Safonau drwy sesiynau briffio staff a chyfarfodydd tîm; drwy raglen datblygu staff Aspire sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac o fewn y rhaglen sefydlu staff newydd. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn rhagweithiol wrth gynnig dewis iaith. Anogwyd staff i wisgo'r cortynnau gwddf neu fathodynau iaith Gwaith os ydynt yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg ac i arddangos y logo 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgw'r Cymraeg' yn eu e-byst. Atgoffwyd y staff hefyd i osod e-lofnodion dwyieithog ar eu e-byst, negeseuon awto-ateb allan o'r swyddfa dwyieithog a negeseuon peiriannau ateb.

Roedd digwyddiadau hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru y Coleg hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hefyd trwy flog wythnosol y Pennaeth. Atgoffwyd staff hefyd o gymorth Cymraeg y Coleg sydd ar gael trwy Dîm Datblygu'r Gymraeg.

Mewn perthynas â'r Safonau sy'n ymwneud â galwadau ffôn, mae prif switsfwrdd awtomataidd y Coleg yn cynnig dewis iaith ac mae negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog. Yn 2022/23 parhaodd Derbynyddion y Coleg i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o dan y cynllun Cymraeg Gwaith, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cychwynnol a chynnig trosglwyddo galwyr Cymraeg eu hiaith i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Atebwyd galwadau i rifau ffôn eraill y Coleg hefyd gyda chyfarfodiad dwyieithog, gan roi'r Cynnig Rhagweithiol unwaith eto i alwyr Cymraeg. Roedd staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau ar ddelio â galwadau ffôn ym Mholisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg y Coleg ac fe'i cynhwyswyd mewn gweithgaredd hyfforddiant ar y Gymraeg i staff.

O ran y Safonau yn ymwneud â chyfarfodydd, cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau, ni chafwyd unrhyw geisiadau am gyfarfodydd cyfrwng Cymraeg yn ystod 22/23 ac ni chynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus na darlithoedd cyhoeddus. Roedd nosweithiau agored y Coleg yn cynnwys ethos dwyieithog, stonin Hyrwyddo'r Gymraeg ac roedd aelodau o staff Cymraeg eu hiaith yn bresennol i gynnal trafodaethau gyda darpar ddysgwyr yn y Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda sefydliadau Cymraeg eu hiaith fel Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Sgiliaith, Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro Cyngor Sir Penfro,

Mudiad Meithrin a'r Urdd yn Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol Tîm Datblygu'r Gymraeg a'u cyfarfodydd â staff eraill sy'n siarad Cymraeg yn Gymraeg hefyd.

Adolygwyd y Safonau'n ymwneud â deunyddiau marchnata a dogfennau cyhoedduswydd corfforaethol ochr yn ochr ag ymarfer casglu tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg, a gwnaed gwelliannau i sicrhau bod yr holl ddogfennau cyhoeddedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Adolygwyd gwefan y Coleg, yn dilyn gwaith datblygu helaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol ac eto gwnaed cynnydd pellach i sicrhau bod cyfieithiadau yn gywir a bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal, cynhyrchwyd tudalen '[Y Gymraeg yn y Coleg](#)' yn hyrwyddo darpariaeth, cyfleoedd a chefnogaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Coleg.

Fel y nodwyd uchod, gwnaed datblygiadau hefyd i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Coleg gyda chreu @colegsirbenfro ar X a Choleg Sir Benfro ar Facebook er mwyn annog rhyngweithio digidol Cymraeg. Mae tudalen Facebook Tîm Datblygu'r Gymraeg, '[Cymraeg – Coleg Sir Benfro](#)', yn blatfform ychwanegol i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg y Coleg.

Roedd arwyddion dwyieithog y Coleg yn cydymffurfio â'r Safonau ac roedd gwybodaeth ar sgriniau 'mawr' y Coleg yn ddwyieithog. Cydnabuwyd bod cynnwys dwyieithog a arddangosir ar hysbysfyrddau adrannol yn parhau i fod yn fater sydd angen sylw ac mae hyn wedi'i gynnwys fel cam gweithredu ar gyfer pob cyfadran ac adran yn eu cynlluniau gweithredu 23/24.

Roedd rhaglen hyfforddi Aspire y Coleg ar gyfer staff yn cynnwys sesiynau hyfforddi dysgu Cymraeg/dwyieithog. Cyflwynodd Sgiliaith sesiynau hyfforddi yn canolbwyntio ar gynhwysiant a'r Gymraeg yn y Cwricwlwm. Bu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cyflwyno sesiynau ar sut i nodi a chael mynediad at adnoddau dwyieithog ar lwyfannau cenedlaethol i wella dysgu dwyieithog. Roedd Digifest Aspire yn cynnwys sesiynau ar arddangos y swyddogaeth cyfieithu o fewn Microsoft Office a rhaglenni eraill. Fel y nodwyd yn Adran 1, roedd Cymraeg Gwaith yn boblogaidd iawn gyda chynnydd yn nifer y staff a gofrestrwyd ar y rhaglen. Cyflwynwyd hyfforddiant iaith Gymraeg hefyd gan aelodau'r Tîm Datblygu'r Gymraeg a oedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Safonau.

Mae hyrwyddo Safonau'r Gymraeg a'r Gymraeg yn gyffredinol yn digwydd yn barhaus. Hyrwyddwyd hawliau Cymraeg dysgwyr a darpariaeth Gymraeg yn nigwyddiadau'r Coleg, h.y. diwrnodau/nosweithiau agored; o fewn y broses ymgeisio a chyfweld, cofrestru a'r rhaglen sefydlu; ar dudalen Facebook 'Cymraeg – Coleg Sir Benfro'. Hyrwyddwyd y Safonau a hawliau dysgwyr hefyd drwy ymgyrch genedlaethol 'Mae Gen i Hawl' Comisiynydd y Gymraeg a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022. Cynhyrchodd Llysgenhadon y Gymraeg fideo o'r enw '[Hawliau'r Gymraeg](#)', yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y Coleg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a gafodd ei lanlwytho ar gyfryngau cymdeithasol.

Anfonwyd nodiadau atgoffa i staff cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, yn cynghori timau i gael sgwrs â dysgwyr Cymraeg eu hiaith ynghylch cynnal sesiynau tiwtorial, asesu a chyfleoedd allgyrsiol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Cynhaliodd tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith diwtorialau Cymraeg/dwyieithog gyda'u dysgwyr Cymraeg eu hiaith. Hwyluswyd a chefnogwyd tiwtorialau cyfrwng Cymraeg hefyd gan Diwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd.

3.2 Cydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi

Rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023, cyflwynwyd 29 polisi i'r Uwch Dîm Rheoli i'w cymeradwyo. Roedd yn ofynnol i reolwyr sy'n gyfrifol am y polisiâu hyn adolygu a chwblhau ffurflen Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Coleg a oedd yn cynnwys y Gymraeg, er mwyn sicrhau: nad oedd y polisi yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg; na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynnwys. Roedd yr holl bolisiâu'n cynnwys adran Gymraeg gorfforaethol yn cadarnhau ymrwymiad y Coleg i ddarparu dewis iaith o fewn y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

3.3 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

Mae'r Safonau Gweithredol yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y berthynas rhwng y Coleg a'i staff (yn cynnwys yn ystod recriwtio a phenodi). Mae'r Safonau hyn yn cynnwys annog a chynorthwyo staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd a darparu cymorth i staff wella a datblygu eu Cymraeg.

Fel y nodwyd uchod, atgoffwyd staff o'u cyfrifoldebau o dan y Safonau mewn cyfathrebu/briffio, cyfarfodydd tîm a hyfforddiant iaith Gymraeg, yn unol â Pholisi Defnydd Mewnol y Coleg o'r Gymraeg. Mae'r polisi hwn ar gael drwy'r Porth Staff (mewnwyd y Coleg). Mae'n rhoi arweiniad ar ddefnyddio a hwyluso defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad, gan gynnwys anogaeth weithredol i ddefnyddio'r iaith mewn gweithgareddau bob dydd. Mae hefyd yn cynnwys geiriad hyrwyddo'r Gymraeg safonol i'w gynnwys mewn gwahanol fathau o gyfathrebiadau. Gall staff gael cymorth, arweiniad a chyfieithiadau Cymraeg gan Dîm Datblygu'r Gymraeg.

O dan ofynion y Safonau Gweithredu, parhaodd yr Adran Adnoddau Dynol i gofnodi dewis iaith mewn perthynas â staff yn derbyn dogfennau a gohebiaeth a gyfeiriwyd atynt yn bersonol. Cynhaliwyd llond llaw o arfarniadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 22/23. Dywedodd sawl rheolwr eu bod wedi trafod a nodi anghenion a thargedau hyfforddiant iaith Gymraeg gyda'u staff er mwyn cefnogi gweithrediad cynlluniau gweithredu iaith Gymraeg adrannol a chyfadranol.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion a'r Safonau Atodol

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â sicrhau bod data'n cael ei gynnal a'i adrodd yn unol â gofynion y Safonau i ddangos cydymffurfiaeth y Coleg. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu'r adroddiad hwn. Cedwir cofnodion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg ar systemau electronig canolog y Coleg a'u diweddarau gan Swyddog Datblygu'r Gymraeg a chynrychiolwyr Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg – Safonau.

4. Sgiliau Iaith Gymraeg y Staff

Yn 2022/23 roedd y Coleg yn cyflogi 535 aelod o staff ac o'r rhain roedd 6% o'r staff naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu â sgiliau Cymraeg uwch. Mae'r proffil sgiliau Cymraeg cyffredinol ar gyfer y cyfnod adrodd hwn fel a ganlyn:

- 11% o staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg (Lefel 00)
- 46% o staff yn gallu cyfarfod a chyfarfarch yn Gymraeg (Lefel 01)
- 23% o staff ar lefel Mynediad (Lefel 1)
- 11% o staff ar lefel Sylfaen (Lefel 2)
- 3% o staff ar lefel Ganolradd (Lefel 3)
- 3% o staff ar lefel Uwch (Lefel 4)
- 3% staff yn hyfedr (Lefel 5)

Dangosodd yr awdit hunan-asesu Sgiliau a gynhaliwyd gydag aelodau Bwrdd y Gorfforaeth fod gan 38% o'i haelodau naill ai sgiliau Cymraeg Lefel 4 neu Lefel 5 sy'n broffil cadarnhaol iawn. Cyflwynwyd arolwg sgiliau iaith Gymraeg newydd i staff ym mis Mehefin 2023. Mae'r data yn cael ei wirio ar hyn o bryd gan yr adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod yr holl staff wedi'i gwblhau. Bydd y data hwn wedyn yn cael ei fwydo i systemau adrodd rheolaeth ganolog Adnoddau Dynol a fydd yn galluogi mynediad at ddata cyfredol ynghylch sgiliau Cymraeg staff.

5. Hyfforddiant

O ran darparu hyfforddiant corfforaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol: recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno/disgyblu a delio â'r cyhoedd, fel y nodir yn y Safonau, ni chyflwynwyd unrhyw hyfforddiant yn ystod y cyfnod adrodd yn y meysydd hyn.

6. Recriwtio

Yn 2022/23 hysbysebwyd 92 o swyddi newydd neu wag yn ddwyieithog, gan nodi bod croeso arbennig i ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg ar bob lefel a bod y Coleg yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg. Roedd yr holl wybodaeth yn ymwneud â recriwtio yn ddwyieithog ac roedd y ffurflenni cais yn gofyn i unigolion gadarnhau a oeddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad.

Mae'r gofyniad i reolwyr asesu'r angen a lefel y sgiliau Cymraeg mewn swydd wag wedi'i gynnwys yn y ffurflen cais am swydd i reolwyr. Mae arweiniad pellach wedi'i ychwanegu at y ffurflen hon er mwyn cefnogi rheolwyr yn eu hasesiad.

Roedd nifer y swyddi a gategoreiddiwyd fel rhai lle'r oedd angen sgiliau Cymraeg yn ystod 22/23 fel a ganlyn:

Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	5
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	55
Angen dysgu sgiliau Cymraeg	3
Dydy sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol	29

Tra bod pob swydd newydd a gwag yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol, mae'r Coleg yn edrych ar ddatblygu dull gwell i gynorthwyo rheolwyr i bennu lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi, gan roi mwy o ffocws ar Gymraeg llafar yn hytrach na Chymraeg ysgrifenedig, yn ei hymgais i ddenu mwy o staff Cymraeg eu hiaith. Mae cynyddu gallu'r Coleg i allu darparu'n ddwyieithog yn parhau i fod yn her oherwydd y prinder cenedlaethol o weithwyr dwyieithog. Bydd hyn yn gofyn am drafodaeth a chynllunio pellach yng ngoleuni ail garfan o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Caer Elen sy'n mynd i addysg ôl-16 ym mis Medi 2024 ac yn edrych ar y Coleg fel llwybr dilyniant posibl.

7. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

8. Casgliad ac Argymhellion

I gloi, mae'r Coleg yn symud ymlaen yn barhaus gyda'i ddatblygiadau dwyieithog, o fewn ei ddarpariaeth cwricwlwm a'i ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'n ymdrechu i gydymffurfio â'i Safonau – mae'n parhau i wneud cynnydd da gyda'i farchnata dwyieithog, gan sicrhau bod deunyddiau cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae dewis iaith yn bresennol yn y broses ymgeisio a chofrestru dysgwyr a hefyd ym mhroses recriwtio staff y Coleg. Mae cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn datblygu a chynnal darpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i'w ddysgwyr fel y mae cyllid Cymraeg Gwaith i gefnogi'r Coleg i gynyddu sgiliau Cymraeg ei weithlu.

Mae'r Coleg yn gwybod lle y mae o ran cydymffurfiaeth ac mae wedi nodi'r canlynol fel meysydd i roi sylw arbennig iddynt yn ystod 2023/24:

- ✚ Sicrhau bod gwybodaeth ar hysbysfyrdau cyfadrannau ac adrannau yn ddwyieithog
- ✚ Ailedrych ar asesu anghenion iaith Gymraeg mewn swyddi, gan ganolbwyntio ar Gymraeg llafar er mwyn denu ymgeiswyr â sgiliau Cymraeg Lefel 3 + i alluogi'r Coleg i gynyddu ei gapasiti dwyieithog
- ✚ Parhau i ddatblygu cynnwys Cymraeg ar fewnrwyd y Coleg, gan roi mwy o ddewis iaith i staff a dysgwyr
- ✚ Cynyddu hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y Coleg ac annog mwy o siaradwyr Cymraeg i fanteisio arnynt

Gyda gweithrediad parhaus cynlluniau gweithredu y cyfadrannau ac adrannau a chylch gorchwyl Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg – Safonau i adolygu cynnydd y cynlluniau hyn, cred y Coleg fod ganddo broses glir ar waith. Bydd yn ei alluogi i fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol a gyrru datblygiadau ymlaen i sicrhau gwell gwasanaethau Cymraeg, gyda'r effaith o ymgysylltiad cynyddol â'r Gymraeg a thwf yr iaith, yn unol â 'Cymraeg 2050'.